

## Pedwar Dimensiwn Dysgu Effeithiol

Yn y pedair tudalen sy'n dilyn rwyf wedi cywasgu ambell i syniad, fframweithiau, tystiolaeth a dynameg yng nghyswllt pedwar dimensiwn dysgu effeithiol mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae'r tri dimensiwn cyntaf i'w gweld mewn adolygiadau ymchwil hanner canrif yn ôl, sy'n codi'n rheolaidd ym mhrofiad athrawon o'r dysgu gorau yn yr ystafell ddosbarth, ond dim ond yn ddiweddar y daethpwyd i ddeall y pedwerydd dimensiwn.

Cafodd y rhain eu datblygu'n llawn ym mhenodau 6 hyd 9 o:

Watkins C, Carnell E, and Lodge C (2007) *Effective Learning in Classrooms*  
London: Sage.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r gwaith ymchwil cefndirol i'w gweld yn y cyhoeddiadau canlynol gan y Rhwydwaith Cenedlaethol er Datblygu Ysgolion (National School Improvement Network):

Watkins C, Carnell E, Lodge C, Wagner P & Whalley C (2002) *Effective Learning*  
Research Matters Series No. 17

Gydag agweddau cysylltiedig yn:

Watkins C (2001) *Learning about Learning enhances Performance*  
Research Matters Series No. 13

Watkins C (2004) *Classrooms as Learning Communities*  
Research Matters Series No. 24

Watkins C (2006) *Personalised Classroom Learning*  
Research Matters Series No. 29.

Mae ystyriaethau cysylltiol eraill i'w gweld yn:

Watkins C (2005) *Classrooms as Learning Communities: what's in it for schools?*  
(London: Routledge)

Watkins C (2003) *Learning: a sense-maker's guide*  
(London, Association of Teachers and Lecturers)

Carnell E and Lodge C (2002), *Supporting Effective Learning*  
(London, Paul Chapman/Sage)

Watkins C, Carnell E, Lodge C, Wagner P and Whalley C (2000) *Learning about Learning*  
(London, Routledge)

Dysgu Gweithredol

Dysgu Cydweithredol

Dysgu a yrrir gan Ddysgwyr

Dysgu am Ddysgu

# Dysgu Gweithredol

## Beth ydym ni'n ei feddwl?

- nid:
- disgyblion yn rhedeg o gwmpas yn yr ystafell ddosbarth;
  - anhrefn, dryswch ayb

Mae dysgu gweithredol yn nodi rhyw fath o gyferbyniad i ddysgwyr yn ymddwyn mewn ffordd oddefol, ond nid polareiddio syml. Mae pob enghraifft o ddysgu yn weithredol ar un ystyr, ond mae rhai mathau o ddysgu yn fwy gweithredol na'i gilydd.

Mae ymwneud yn weithredol gyda deunyddiau, gyda syniadau, gyda pherthynas ag eraill a gydag adnoddau eraill yn fwriad allweddol.

## Beth yw'r cysylltiad rhwng gweithgaredd a dysgu?

"Mae dysgu gweithredol yn cyfeirio at y syniad bod pobl yn dysgu trwy ymroi i broses o wneud synnwyr. Nid sbarduno gweithredu ymddygiadol mo'r nod fel y cyfryw, ond yn hytrach sbarduno mathau cynhyrchiol o weithredu gwybyddol." Mayer RE (1998), "Cognitive theory for education: what teachers need to know" in Lambert NM and McCombs BL (Ed.), *How Students Learn: reforming schools through learner-centred education*. Washington DC, American Psychological Association


"Mae dysgu gweithredol yn ymwneud ar y naill law â dysgwyr yn cymryd penderfyniadau y ynglŷn â dysgu, ac ar y llall wneud defnydd gweithredol ar feddwl."

Simons PR-J (1997), "Definitions and theories of active learning" in Stern D and Huber GL (Ed.), *Active Learning for Students and Teachers: reports from eight countries*. Frankfurt, OECD/Peter Lang

## Sut mae mynd o'i chwmpas hi yn yr ystafell ddosbarth?

Os yw dysgu gyfystyr "... â'r broses lle caiff gwybodaeth ei chreu trwy drawsffurfio profiad" (Kolb, 1984) yna "Nid yw'n ddigon i gael profiad yn unig er mwyn dysgu. Heb fyfyrion ar y profiad hwnnw mae'n bosib y bydd yn mynd dros gof yn fuan neu y bydd ei botensial dysgu yn cael ei golli" (Gibbs, 1988).

Mae'r model isod yn cyfuno rhai o'r camau allweddol yn y broses.



Mae'r cylch hwn yn pwysleisio gweithredu wrth ddysgu (Gwneud), yr angen i fyfyrion a gwerthuso (Adolygu), tynnu ystyr o'r gwaith adolygu (Dysgu), a chynllunio am ddefnyddio'r ddysg wrth weithredu i'r dyfodol (Cymhwyso).

Gall y cylch fod yn weithredol dros gyfnod hir (e.e. prosiect cynllunio-a-gwneud) neu gyfnod byr (ychydig funudau).

## Enghreifftiau

### Darllen Gweithredol

Mae dysgwyr yn mynd yn bellach o lawer na'r syniad amlycaf (ond goddefol) bod darllen yn golygu "cael y testun hwn i mewn i 'mhen" trwy strategaethau megis:

*Sganio* cyn darllen (beth yw'r thema, beth yw strwythur y testun?)

*Holi* (beth ydw i'n ei wybod yn barod, am beth ydw i eisiau gwybod mwy?)

*Darllen* (un cam bach ar y tro, gan aros bob yn hyn a hyn i wneud synnwyr)

*Adolygu* (Beth sy'n cael ei ddweud? Beth yw fy marn i amdano?)

*Cofio* (Beth yw'r prif negeseuon? Beth yw'r syniadau allweddol?)

### Ysgrifennu Gweithredol

Nid 'proses cyfleu gwybodaeth' yw ysgrifennu – rhyw fath o dywallt pob dim ar y papur fel yr anogir ysgrifenywyr amhrofiadol i'w wneud. Bydd ysgrifenywyr medrus yn meddwl am y weithred o ysgrifennu fel rhywbeth sydd, ynddo'i hun, yn cyfoethogi eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Mae ysgrifennu gweithredol yn fater o weld ysgrifenywyr yn dod yn fwy cynllungar a myfyriol. Bydd ysgrifenywyr gweithredol yn datblygu syniad am yr hyn y maent am ei ddweud mewn testun, yn cyfansoddi drafft, yn cael rhywun i ddarllen y drafft a gweld a yw'n cyfleu eu bwriad.

Mae enghreifftiau'n codi ym mhob pwnc:

## Beth sy'n ein dal ni nôl?

- teachers planning for THEIR activity, not the activity of the learners
- rhedeg ystafelloedd dosbarth "gwneud, gwneud, gwneud a gwneud eto"
- y llais ofnus - "bydd pob dim yn mynd yn ffliw"
- tanbrisiu disgyblion - "fyddan nhw ddim yn gallu dygymod"
- ein hymateb i bwysau i "fodloni'r cwricwlwm"
- y farn amlycaf am ddysgu: "dysgu = cael eich dysgu"

"Pam, er gwaethaf y ffaith bod dysgu trwy dywallt i mewn, trwy amsugno'n oddefol, yn cael eu condemnio gan bawb, y maen nhw'n dal i fod yn rhan mor annatod o'n hymarfer?" (John Dewey, 1916)

- anghofio (neu ddim yn gwybod) bod arolygon ymchwil yn dangos bod dysgu gweithredol yn arwain at ganlyniadau gwell

Abbott ML and Fouts JT (2003), *Constructivist Teaching and Student Achievement: The Results of a School-level Classroom Observation Study*, Washington: Seattle Pacific University

# Dysgu Cydweithredol

## Beth ydym ni'n ei olygu?

Ystyr cydweithredu yw creu rhywbeth mwy rhyngom nag a fyddem wedi'i wneud ar wahân.

Mae cydweithio'n is-syniad, ynglŷn ag addasu gweithredoedd fel bod pob un yn cyflawni ei nod unigol [mewn ystafell ddosbarth: "Rho'r pren mesur i mi, plis!"], ond mae cydweithredu'n ymwneud ag addasu gweithredoedd er mwyn cyflawni nod gyffredin ["dewch i ni ei adeiladu e fel hyn"].



## beth yw'r berthynas rhwng cydweithredu a dysgu?

"Rydych chi'n dysgu mwy [wrth weithio gydag eraill] oherwydd pan fyddwch chi'n egluro wrth bobl beth i'w wneud, rydych chi'n dweud pethau na fydddech chi'n dweud wrth eich hunan, mewn gwirionedd. Felly rydych chi'n dysgu pethau na fydddech chi'n gwybod petaech chi jest yn gwneud y peth ar eich pen eich hun." [Annie, 10 oed, cyfweiliad gyda Caroline Lodge]

Un o elfennau allweddol dysgu cydweithredol yw hybu deialog.

Mae deialog lle bydd dysgwyr yn egluro wrth ei gilydd yn cyfoethogi dealltwriaeth.

Wrth i ddsygwyr ddod yn well wrth siarad eu hunain trwy broblemau a chyd-destunau, mae eu "sgwrs allanol" yn datblygu, ac felly hefyd eu "sgwrs fewnol", gan gynyddu eu gallu i hunangyfeirio.

## Sut mae mynd i'r afael â'r peth mewn ystafell ddosbarth?

Mae'n golygu mwy na rhoi disgyblion mewn grwpiau! Mae angen talu sylw i dri phrif ddimensiwn:

### 1. Cynllunio'r Dasg

- dylai fod yn un na allai unigolyn ei gwneud ar ei ben ei hun
- dylai fod ar lefel uchel (h.y. nid yn dasg 'ateb cywir')
- rhaid iddi feithrin rhyngddibyniaeth (fel y gall pob cyfranogydd ddod â rhywbeth tebyg a rhywbeth gwahanol)

### 2. Y Math o Ryngweithio



Efallai y bydd angen annog a chefnogi dysgwyr i ddatblygu eu galluoedd:

- i ganolbwyntio ar y gwaith meddwl ("beth yw eich barn chi am fy syniad i?")
- i ganolbwyntio ar helpu ei gilydd ("Rwy' wedi drysu ynglŷn â ...")
- i ymdopi â'r agweddau emosiynol ("Rwy'n teimlo ... pan fyddi di'n ...")

Caiff galluoedd eu datblygu'n effeithiol trwy adolygu'r pethau sy'n gweithio orau, yn hytrach na moesoli.

Mae modd datblygu rhyngweithio fesul pâr, er enghraifft trwy 'ddysgu o'r ddwy ochr' lle bydd pâr yn darllen testun ac yn trafod eu darllen mewn perthynas â'r awgrymiadau a roddir:

- holi
- egluro
- crynodebu
- rhagweld

## 3. Strwythur Cyfranogwyr

Adeiledir cydweithredu yn aml ar strwythur sy'n dechrau fesul pâr, yn datblygu i grwpiau bychain ac yna'n dwyn i mewn y dosbarth cyfan.

Fel arfer deuir â grwpiau cymysg ynghyd: gallant wedyn leihau gwahaniaethau o ran statws a defnyddio amrywiaeth mewn ffordd gynhyrchiol (ac yn fwy felly nag a ragwelir fel arfer).

Ystafell Ddosbarth Jig-so



Y syniad canolog yw rhannu rhyw faes ymholi yn wahanol adrannau, gan roi pob un o'r rhain i is-grŵp o fewn y dosbarth. Daw'r is-grwpiau hyn yn arbenigwyr ar eu maes, ac yna aildrefnir y grwpiau gyda chyfrannwr/wyr o bob adran yn y grŵp sydd (bellach) yn grŵp jig-so. Ar y pwynt yma daw'r darlun ehangach i'r golwg.

Enghreifftiau:

- pum "achos" i'r Ail Ryfel Byd
- nodweddion chwe chraig
- cymeriadau chwedlau gwerin
- cyd-darlenn rhannau o stori

Mewn ystafelloedd dosbarth cydweithredol, enynnir diddordeb grwpiau bychain yn aml i gynhyrchu rhywbeth sy'n cefnogi dysgu grwpiau eraill, ac efallai y bydd y dosbarth cyfan yn cyhoeddi rhyw gynnyrch sy'n cyfleu ffurth eu gwaith dysgu y tu hwnt i'r ffiniau.

Chris Watkins

THE LONDON CENTRE  
for Leadership in Learning

## Beth sy'n ein dal ni nôl?

- "Fedrwn i ddim â dirprwyo iddyn NHW!" (y llais gwatwarus)
- "does dim sgiliau cydweithredu gyda nhw" (llais y diffyg)
- "bydd eraill yn meddwl ei fod e'n rhy swnllyd" (llais ofn)
- "fyddai'r gofalwr ddim eisiau i mi symud y byrddau" (y llais ufudd)
- "fe allai e gadw'r rhai disgleiriaf yn ôl" (y gred mewn cynnal gwahaniaeth yn hytrach na chofleidio amrywiaeth)
- "does dim cydweithredu ymhlith y staff yn yr ysgol hon, hyd yn oed!"
- anghofio (neu heb wybod) bod gwaith ymchwil yn dangos bod cysylltiad rhwng ystafelloedd dosbarth cydweithredol a:
  - Dysgu'n well, cyflawni mwy
  - Gwell sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol?
  - Mwy o ymwneud a chyfrifoldeb
  - Gwell perthynas ag eraill

## Dysg a yrrir gan Ddysgwyr

### Sut mae mynd o'i chwmpas hi mewn ystafell ddosbarth?

"Mae gan ddisgyblion ym mhob ystafell ddosbarth y grym erioed i wneud y dewis mwyaf hanfodol un ynghylch eu dysgu: gallant ddewis ymroi i ddysgu neu i wrthod ymroi. Ni allwn hepgor y dewis hwnnw"

Starnes, B.A. and Paris, C. (2000) 'Choosing to learn', *Phi Delta Kappan* January: 392-397.

Mae disgyblion o bob oedran a phob lefel yn ymgysylltu orau pan:

- fyddant yn helpu i ddiffinio'r cynnwys
  - fydd ganddynt amser i ddod o hyd i gyfeiriad arbennig sy'n eu diddori.
  - fyddant yn creu cynhyrchion gwreiddiol a chyhoeddus
  - fyddant yn synhwyro nad yw canlyniadau eu gwaith yn rhagderfynedig neu'n gwbl ragweladwy.
- Perrone V (1994), "How to engage students in learning", *Educational Leadership*, 51(5): 11-13.

Gallai disgyblion wneud dewisiadau yn yr ystafell dosbarth ynglŷn â:

- yr hyn maen nhw'n ei ddysgu
- y ffordd maen nhw'n ei ddysgu
- pa mor dda y maen nhw'n dysgu, a'r
- rheswm pam maen nhw'n dysgu.

Pob tro y gwneir dewis, mae'r disgybl yn debygol o ymgysylltu fwyfwy, a bydd dysgwyr yn gosod lefel her iddynt eu hunain sy'n gweithio iddyn nhw. Engbreiffitiau (gan ddechrau ar raddfa fechan):

*Dewisiadau ynglŷn â beth i'w ddysgu.*

- gyda pha un o blith y set hon o broblemau fyddi di'n dechrau?
- ble, yn y testun hwn, fyddi di'n dechrau darllen
- pa stori ddylai'r dosbarth fod wedi ei darllen erbyn diwedd y dydd.

*Dewisiadau ynglŷn â sut i ddysgu*

- pa fan darllen i'w ddewis
- cyflwyno gwaith ysgrifennu diweddar ai peidio
- cwestiynau pwy i'w hateb
- gweithio'n unigol, mewn grwpiau bychain, neu fel dosbarth.

### Beth yw ystyr hyn?

Mae'n fater o gydbwysedd: newid o ystafelloedd dosbarth sy'n llawn o 'ddysgu diwahoddiad', i ystafelloedd dysgu lle mae'r disgyblion yn fwy o griw ac yn llai o deithwyr.

Byddwn yn sôn weithiau ei bod hi'n bwysig i ddatblygu dysgwyr annibynnol, gan olygu mwy annibynnol ar yr athrawon. Ar yr un pryd gall mwy o ryngddibyniaeth ddatblygu rhwng dysgwyr.

Felly rydym am i ddisgyblion fod yn fwy *gweithredol* - gweithredu'n fwrriadus, gwneud dewisiadau, gwneud gwahaniaeth ac olrhain y canlyniadau. Yn aml daw mwy o greadigrwydd hefyd i'r amlwg yn ystod y broses hon.

### Beth sydd gan gyfeiriadaeth disgyblion i'w wneud â dysgu?

Mae hunangyfeirio a hunan-reoli wrth graidd bod yn ddysgwr effeithiol. Gall athrawon ddysgu gymaint o sgiliau a strategaethau ag a fyddant, ond oni bai fod y dysgwyr yn rhan o'r broses o gynllunio, monitro ac adolygu eu dysgu ni fydd yn gwbl effeithiol.

Watkins C et al (2002) *Effective Learning*, National School Improvement Network

"Pan fydda' i mewn penbleth, fe fyddai i'n mynd nôl a gwirio'r ateb,

yn lle dyfalu", medd Vikesh (11 oed) - datganiad sy'n nodweddu'r dysgwr hunanreolus.

"Ymddengys bod dewis a'r cyfle i hunangyfeirio yn porthi cymhellant cynhenid, gan eu bod yn rhoi gwell ymdeimlad o ymreolaeth"  
Deci EL and Ryan RM (Ed.) (2002), *Handbook of Self-determination Research* Rochester, NY, University of Rochester Press

*Dewis pa mor dda i ddysgu.*

Mae dewis pa ffordd sydd orau i ddangos dealltwriaeth, a dyfeisio cwestiynau i wirio dealltwriaeth, yn arwain at ddyfnder a her. Mae hefyd yn rhoi mwy o reolaeth i ddisgyblion, yn gwneud i arfarnu deimlo'n llai cosbol, ac yn cynnig profiad dysgu pwysig ynddo'i hun.

Asesu a gyfeirir gan ddysgwyr

Mae hyd yn oed plant ifainc (Bl 2) yn gallu cyfranogi wrth ddatblygu cyfarwyddiadau ar gyfer eu dysgu ac wrth gymhwyso meini praf wrth asesu'r ddysg honno. Mae safon y rhain yn codi gydag amser (Higgins et al, 1994) .

Mae hunanasesiadau gan ddisgyblion yn cytuno'n dda gydag asesiadau athrawon, er bod plant weithiau'n dueddol o danasesu. Mae disgyblion yn adrodd bod hunanasesu ac asesu gan gyfoedion yn gwneud iddynt feddwl mwy, a dysgu mwy (Stefani, 1994).

Ym mlynnyddoedd hŷn yr ysgol, mae dysgwyr yn gallu cynllunio a threfnu cyfnodau dysgu estynedig, gan gynnwys rhai sy'n eu paratoi ar gyfer profion gorfodol (Starnes & Paris, 2000).

*Dewisiadau ynglŷn â pham i ddysgu*

Mae disgyblion eisoes yn gwneud y dewisiadau hyn. Mae rhai yn benderfynol o'i wneud "I blesio eu rhieni" tra bydd eraill yn gweithredu rhyw fersiwn o'i wneud e "Er mwyn osgoi cael fy nghadw ar ôl". Mae dod â'r rhesymau hyn i'r golwg a thrafod llawer yn dod â dibenion eraill i'r disgwrs ac yn helpu dysgwyr i roi cynnig ar eu dibenion newydd eu hunain.

### beth sy'n ein dal ni nôl?

- ein bod ni'n tanbriso pobl ifainc yn ein cymdeithas yn ofnadwy?
- y ffaith fod y rhan fwyaf o arferion addysgu yn seiliedig ar y syniad mai'r oedolion sy'n gwybod orau?
- trafod disgyblion yn nhermau eu diffygion ("does gyda nhw ddim mo'r sgiliau") yn hytrach na'u profiad ("dydyn ni ddim wedi eu helpu nhw i feistrolï hyn eto")
- gall deimlo'n anodd i athrawon hybu awtonomi ymhlith disgyblion os nad yw'r athrawon yn cael llawer o brofiad o awtonomi eu hunain
- lleisiau yn erbyn dewis:
  - "does dim modd rhoi penrhwyddid llwyr i blant"
  - (O ble daeth yr awgrym eithafol hwnnw?)
  - "dydyn nhw ddim yn ddigon aeddfed eto"
  - (Pa mor hir ydym ni am aros?)
- anghofio (neu ddim yn gwybod) bod gwaith ymchwil yn dangos bod dysgwyr sy'n cynllunio ac yn myfyrio fwyaf yn cael marciau 30% yn well mewn arholiadau cyhoeddus.

Atkinson S (1999), "Key factors influencing pupil motivation in design and technology", *Journal of Technology Education*, 10(2): 4-26

# Dysgu am Ddysgu

## Beth ydym ni'n ei olygu?

Mae dysgu am ddysgu (weithiau meta-ddysgu) yn adeiladu ar y gallu dynol allweddol i feddwl am ein meddwl (metawybyddiaeth).

Nid rhyw syniad pellennig neu academaidd yw dysgu am ddysgu: mae'n golygu dysgu am brofiad byw yr unigolyn o ddysgu, ac yn y broses ddatblygu syniad mwy cyfoethog am ddysgu.

Mae meta-ddysgu yn cynnwys rhywngwahanol ehangach o lawer o bynciau na metawybyddiaeth, gan gynnwys nodau, teimladau, perthynas ag eraill a chyd-destun y dysgu.

## Beth sydd gan hyn i'w wneud â dysgu?

Bydd ymdrechion i ddysgu disgyblion "sut mae dysgu" trwy gyfrwng sgiliau neu strategaethau eraill yn aneffeithiol, gan ei bod hi'n bosibl y bydd dysgwyr yn "meddu" ar strategaethau dysgu, ond ddim yn eu defnyddio, neu'n eu defnyddio mewn modd aneffeithiol. Nid rysâit mo dysgu, felly mae'r broses o ddeddhol a defnyddio yn allweddol.

Mae dysgu am ddysgu yn hybu myfyrion ar ddysgu, yn ogystal â chyfoethogi'r amrywiaeth o ffyrdd posib i weithredu.

Gall gwell dealltwriaeth o'ch dysgu eich hun gynnwys gweld y ffyrdd y mae'n amrywio yn ôl gwahanol gyd-destunau. Mae hon yn elfen anhepgor wrth drosglwyddo dysgu. Mae pobl sy'n meddu ar ymwybyddiaeth fetawybyddol yn fwy tebygol i sylweddoli bod strategaeth hefyd yn briodol mewn cyd-destun sy'n edrych yn wahanol.

Mae rhan allweddol i feta-ddysgu yn hunanreolaeth dysgwr dros ei ddysgu.

Mae meta-ddysgu'n hybu'r dysgwr amlochrog.

## Sut mae mynd o'i chwmpas hi mewn ystafell ddosbarth?

*Yr elfen gyntaf:- sylwi ar ddysgu*

Mae hyn yn galw arnom weithiau i *atal y llif* er mwyn sylwi ar ein dysgu a chrynhoi iaith er mwyn gwneud hynny. Y ffordd orau o adrodd am ein profiad o ddysgu yw trwy arddull naratif, sy'n adrodd hanes yr hyn yr ydym (yn gynyddol) yn ei sylwi.

*Yr ail elfen: sgysiaid ynglŷn â dysgu*


Mae hyn yn dechrau gydag amryw o sbardunau sy'n helpu dysgwyr i graffu ar eu profiad a'i drafod (gweler yr enghreifftiau yn y golofn nesaf)

*Y drydedd elfen:- myfyrion*

Gellir cefnogi hyn trwy ysgrifennu mewn dyddiadur dysgu, er mwyn nodi ac adolygu agweddau ar y daith at ddysgu. Fel medd Lynne, 10 oed: "Wrth i fi ysgrifennu rwy'n sylwi ac yn deall mwy hefyd."

*Y bedwaredd elfen:- gwneud dysgu yn wrthrych dysgu*

Efallai ein bod yn meddwl am feta-ddysgu fel cylch ychwanegol yn broses ddysgu, a bod gwybodaeth fetawybyddol ynglŷn â dysgu yn cael ei hadeiladu del unrhyw fath arall o wybodaeth, trwy ei rhoi at ei gilydd fesul darn ar sail data tameidiog o amryw o brofiadau.



Enghreifftiau o sbardunau ac ymholiadau

(i) Sylwi ar bethau ynglŷn â dysgu,

- Beth yw dysgu?
  - beth ydym ni'n ei olygu? beth yw gwrthwyneb dysgu?
- Pryd mae ar ei orau? Ble mae ar ei orau?
- Beth sy'n helpu eich dysgu chi? (gan gynnwys, ond nid yn unig, yr hyn mae athrawon ac eraill yn ei wneud)
- Pa gamau ydych chi'n cymryd yn eich dysgu?
- Sut deimlad oedd e?
- A yw'r hyn rydych yn ei wneud a'r ffordd mae'n teimlo yn newid wrth ichi fynd yn eich blaen?
- Beth sydd wedi eich synnu chi?
- Beth sydd wedi llesteirio eich dysgu?
- Pam ydych chi'n dysgu?
- Beth ydych chi'n ei wneud gyda'ch dysgu?

(ii) Siarad ynglŷn â dysgu, dechrau adrodd ac ailadrodd storïau ynglŷn â dysgu, gydag eraill yn arwain at ddeialog.

- Sonia wrthyf i am brofiad dysgu gwirioneddol dda
- Pam fod y profiad cystal? Beth wnest ti ei gyfrannu?
- Beth mae hyn yn ei ddweud wrtho ti ynglŷn â thi dy hun? Ynglŷn â dysgu?
- Sut wyt ti'n gwneud synnwyr o hynny?
- Beth am hynny sy'n achosi penbleth i ti?
- Rwy'n sylw i yn dy stori...
- Pa wahaniaeth wyt ti'n ei weld rhwng ein storïau ni?

(iii) Myfyrion am ddysgu

datblygu rhyw bellter rhag y profiad sydd newydd godi

- Sut oedd pethau chwe mis yn ôl?
- Pa gysylltiadau neu batrymau a weli di?
- Pa weledigaethau newydd sydd wedi dod i'r amlwg ynglŷn â dy ddysgu?

(iv) Meta-ddysgu

- Sut elli di gynllunio i fynd ati i ddysgu?
- Sut elli di fonitro sut mae dy ddysgu'n mynd?
- Sut elli di adolygu sut mae dy ddysgu wedi mynd?
- Sut fyddi di'n gwybod ei fod gystal ag y gelli ei wneud e?

## Beth sy'n ein dal ni n'ôl?

- canrifoedd o ystafelloedd dosbarth oedd DDIM yn sôn am ddysgu
- ein profiad ein hunain o'r ysgol (a pheidio â sylw llawer ynglŷn â'n dysgu ein hunain)
- y ffaith fod y math hwn o arfer yn araf i gychwyn, gan nad yw disgyblion wedi ymarfer ei wneud

e y syniad ei fod yn galw am ryw fath arbennig o iaith

- anghofio (neu ddim yn gwybod) bod gwaith ymchwil yn dangos bod

- ffocws ar ddysgu yn gallu gwella perfformiad, tra bo ffocws ar berfformiad yn gallu gostwng perfformiad;

- gall datblygu meta-ddysgu wella perfformiad;

- mae dysgu am ddysgu yn elfen hanfodol i fod yn ddysgwr effeithiol mewn amryw o sefyllfaoedd.

Watkins C. (2001), *Learning about Learning enhances Performance*, National School Improvement Network (Research Matters series No 13)